

**Cofnodion cyfarfod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg  
(BIPCTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 9 Mehefin 2021 Ar-lein ac a  
darlledwyd yn fyw drwy Microsoft Teams**

**Aelodau'n bresennol:**

Marcus Longley	Cadeirydd
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Jayne Sadgrove	Is-gadeirydd
Gareth Robinson	Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Greg Dix	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Ian Wells	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Steve Webster	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd (Dros Dro)

**Eraill yn bresennol:**

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Lee Leyshon	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Christopher Turner	Cadeirydd, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
Stephen Harrhy	Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans
Sian Lewis	Rheolwr Gyfarwyddwr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Stuart Davies	Cyfarwyddwr Cyllid, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Jacqui Evans	Ysgrifennydd y Pwyllgor, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Mark Jones	Archwilio Cymru
Owen James	Pennaeth Cyllid Corfforaethol
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

## Eitem ar yr Agenda

### 1 **MATERION RHAGARWEINIOL**

#### 1.1 **Croeso a Chyflwyniadau**

**Croesawodd** y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys cydweithwyr o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys.

#### 1.2 **Ymddiheuriadau am Absenoldebau**

**Nododd** Aelodau ymddiheuriadau gan Kate Eden, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

#### 1.3 **Datganiadau o fuddiannau**

Datganodd F Jenkins ei bod hefyd yn Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

### 2 **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-2021**

#### 2.1 **Adroddiad Blynyddol BIP CTM gan gynnwys yr Adroddiad Atebolrwydd, yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff, ac Adroddiad Perfformiad 2020-2021**

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad a oedd wedi bod yn destun craffu manwl cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw.

**Nododd** yr Aelodau i'r Bwrdd gael cais i gymeradwyo cyflwyno'r adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar yr amod y byddai dau fân ddiwygiad yn cael eu gwneud ynghylch buddiannau partion cysylltiedig, a nodwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw. **Nododd** yr Aelodau y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 29 Gorffennaf 2021.

Cadarnhaodd P Roseblade fod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon blynyddol wedi cael eu harchwilio'n fanwl, ac ychwanegodd fod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn fodlon argymhell bod y ddau adroddiad, yn amodol ar wneud ambell fân ddiwygiad, yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

#### 2.1.1 **Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC) 2020-2021**

Cyflwynodd S Harrhy yr adroddiad a gefnogwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys a Phwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ychwanegodd S Harrhy fod y ddogfen hefyd

wedi cael ei hadolygu gan yr Archwilwyr ac nad oedd gan yr Archwilwyr hyn unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud.

### 2.1.2 Yr Academi Ddelweddu Genedlaethol

Cyflwynodd G Galletly yr adroddiad a oedd unwaith eto yn destun craffu manwl cyn y cyfarfod heddiw. Croesawodd yr Aelodau ddatganiad llywodraethiant cyntaf yr Academi Delweddu Genedlaethol.

### 2.1.3 Datganiad Llywodraethu Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)

Cyflwynodd J Evans yr adroddiad a gymeradwywyd ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. **Nododd** yr Aelodau fod y ddogfen wedi'i llofnodi gan S Lewis, y Rheolwr Gyfarwyddwr ar 8 Mehefin 2021.

### 2.2.4 Cyfrifon Blynyddol 2020-2021 Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys

Cyflwynodd S Davies y cyfrifon a gymeradwywyd ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

### 2.3 Archwilio Cymru: Adroddiad ynghylch yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol (ISA 260) (gan gynnwys y Llythyr o Gynrychiolaeth a Barn yr Archwiliwr)

Cyflwynodd M Jones yr adroddiad a dywedodd fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod. Ychwanegodd hefyd fod diweddariad llawn wedi'i roi gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw.

**Nododd** yr Aelodau y byddai'r Archwilydd Cyffredinol, mewn perthynas â mater pensiynau'r Uwch-glinigwyr y cyfeirir ato yn atodiad 3 i'r adroddiad, yn cyhoeddi adroddiad sylweddol ar y mater hwn ochr yn ochr â'i lythyr cynrychiolaeth, a fyddai'n berthnasol i bob corff Iechyd, ac eithrio Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Rhoddodd M Jones ei ddiolchiadau i holl gydweithwyr y Bwrdd Iechyd ac i'r ddau Bwyllgor fu'n bresennol am eu cefnogaeth dros yr wythnosau diwethaf. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i gydweithwyr Archwilio Cymru am eu cymorth ac i gydweithwyr yn y Byrddau Iechyd a oedd i gyd wedi gweithio'n eithriadol o galed i lunio'r ddogfen derfynol.

Penderfyniad:

**CYMERADWYODD** y Bwrdd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BIP CTM ar gyfer 2020-2021;

**CYMERADWYODD** y Bwrdd y Llythyr Cynrychiolaeth (wedi ei gynnwys yn ISA 260);

**NODODD** y Bwrdd y Datganiadau Llywodraethiant a dderbyniwyd gan Sefydliadau a Letyir y Bwrdd Iechyd.

**4 UNRHYW FATERION ERAILL**

Ni nodwyd eitemau.

**5 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 10.00am ddydd Iau 29 Mai 2021.

**6 DIWEDD Y CYFARFOD**